Addysg / Education

Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

☎ (01286) 679089 Ein Cyf / Our Ref:
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru

28 Awst 2020

AT: RIENI/GOFALWYR PLANT YSGOLION UWCHRADD GWYNEDD

Annwyl Riant/Gofalwr

Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru am y defnydd o orchudd wyneb mewn ysgolion uwchradd, hoffwn gymryd y cyfle i rannu canllawiau'r Awdurdod ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd gyda chi.

- Dydy'r mesur hwn ddim yn disodli'r mesurau sydd eisoes mewn lle.
- Y mesurau pwysicaf i reoli COVID-19 o hyd ydy hylendid dwylo ac arwynebau, cadw grwpiau cyswllt disgyblion i'r lleiafswm, ac oedolion yn cadw at reolau ymbellhau cymdeithasol.
- Rydym yn argymell y defnydd o orchudd wyneb pwrpasol gan ddisgyblion oedran uwchradd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac eithrio wrth fwyta neu yn yr awyr agored.
- Rydym hefyd yn argymell y defnydd o orchudd wyneb pwrpasol gan ddisgyblion uwchradd ar gludiant ysgolion.
- Bydd disgyblion sy'n mynychu cyrsiau 14-16 ac ôl-16 yn y coleg yn gorfod dilyn canllawiau'r coleg. Mi fydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu gan yr ysgol gyda'r disgyblion penodol hynny.
- Disgwylir i ddisgyblion gadw at bellter cymdeithasol o 2m oddi wrth staff bob amser.
- Anogir disgyblion i ddod â'u gorchudd wyneb (aml-ddefnydd) eu hunain.
- Cyfrifoldeb y disgyblion ydy gwisgo'r gorchudd wyneb yn briodol a'i gadw'n ddiogel pan nad yn ei wisgo, a byddant yn derbyn arweiniad gan yr ysgol ar sut i wneud hyn.

Yn gywir

Garem Jackson
Pennaeth Addysg

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.uk